# Peiriannydd Cefnogi Rhagweithiol

Cyflog: £34,371 - £37,617 y flwyddyn (Gradd 7)

Math o Gontract: Llawn amser (36.5 awr yr wythnos), Parhaol

Mae CBAC, sy'n adnabyddus yn y byd addysg yng Nghymru, yn un o brif ddarparwyr cymwysterau y gellir ymddiried ynddynt ar draws y DU.

Gan weithio dan gyfarwyddyd y Pennaeth Seiberddiogelwch ac Isadeiledd, bydd y rôl newydd hon yn gyfrifol am fonitro a chynnal diogelwch ein hisadeiledd TG. Byddant yn gyfrifol am gynnal a chadw'r system o ddydd i ddydd, ac yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau mewn technoleg ac yn gweithio i liniaru achosion o dorri diogelwch a risgiau i gyfanrwydd data.

Bydd gan yr ymgeisydd delfrydol brofiad blaenorol mewn rôl TG a gwybodaeth am seiberddiogelwch yn ogystal â diddordeb ynddo. Byddant yn unigolion hunan-gymhellol, yn gyfforddus yn cynhyrchu eu llwyth gwaith eu hunain ond yn graff ac yn gwybod pryd y bydd angen uwchgyfeirio bygythiadau digidol.

**Y Contract:**
Swydd hybrid yw'r rôl hon, sy'n galluogi'r ymgeisydd llwyddiannus i rannu ei amser rhwng gweithio yn swyddfeydd CBAC a gweithio gartref, gan ddibynnu ar ddewis personol ac anghenion y busnes. Dylai deiliaid y rôl fod yn barod i weithio o'n swyddfa yng Nghaerdydd o leiaf un diwrnod yr wythnos. Byddai sgiliau iaith Gymraeg yn fanteisiol, ond nid ydynt yn hanfodol ar gyfer y rôl hon.

Yn CBAC, rydym yn falch o fod yn lle cynhwysol a chefnogol i weithio. Rydym yn cynnig amrywiaeth o fuddion ardderchog, gan gynnwys: 25 diwrnod o wyliau blynyddol y flwyddyn (yn ogystal ag 16 o wyliau statudol / ychwanegol), gwersi Cymraeg am ddim, cynllun pensiwn buddion diffiniedig CARE (CPLlL) a nifer o bolisïau sy'n ystyriol o deuluoedd.

Os hoffech wybod mwy am y swydd neu am weithio i CBAC, peidiwch ag oedi cyn cysylltu ag aelod o'n tîm Adnoddau Dynol (AD@cbac.co.uk), bydd hi'n fwy na pharod i siarad â chi.

**Ewch i'n gwefan** i lawrlwytho copi o'r disgrifiad swydd a ffurflen gais.

## Dyddiad cau: 23:59, Dydd Llun 07 Ebrill 2025

## DISGRIFIAD SWYDD

| | |
|---|---|
| **Teitl y swydd** | **Peiriannydd Cefnogi Rhagweithiol** |
| **Adran:** | TG |
| **Isadran:** | Gwasanaethau Technegol |
| **Yn atebol i:** | Pennaeth Seiberddiogelwch a Gwasanaethau Isadeiledd |
| **Gradd:** | 7 |
| **Lleoliad:** | Rhodfa'r Gorllewin |

### Prif bwrpas y Swydd:

Bydd deiliad y swydd yn bennaf cyfrifol am fonitro a chynnal a chadw systemau isadeiledd craidd yn rhagweithiol. Bydd hyn yn cynnwys rheoli diweddariadau caledwedd a meddalwedd, rheoli ffurfwedd a pholisïau system ochr yn ochr â rheolaethau diogelwch.

Gan ddefnyddio systemau monitro isadeiledd (Site 24x7) a rheoli gwendidau (Microsoft TVM, Tenable), bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw faterion yn cael eu nodi a'u datrys o fewn amserlenni CLG pendant, gan uwchgyfeirio materion at arbenigwyr technegol lle bo angen.

### Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:

- Monitro systemau a swyddogaethedd caledwedd a chymryd camau rhagweithiol i ddatrys risgiau i isadeiledd
- Gweithredu prosesau monitro systemau priodol ar gyfer isadeiledd craidd, gan ddefnyddio Site 24x7 a sicrhau bod materion a nodir yn cael eu datrys o fewn amserlenni CLG pendant, gan uwchgyfeirio lle bo'n briodol.
- Cynnal archwiliadau rheolaidd o systemau, gan nodi pryd mae angen diweddariadau a gweithredu'r rhain yn unol â phrosesau y cytunwyd arnynt ac mewn modd amserol.
- Nodi meysydd risg a chymryd camau rhagweithiol i ddatrys materion arferol
- Cydweithio ag eraill i ddatrys materion diogelwch system cymhleth neu newydd, gan nodi pryd y bydd angen uwchgyfeirio mater i dimau/adrannau eraill.
- Sicrhau bod yr holl feddalwedd sydd wedi dyddio yn cael ei diweddaru neu ei dileu'n amserol.
- Defnyddio a ffurfweddu meddalwedd system weithredu ar draws llwyfannau Linux, Mac a Windows yn unol â gofynion y cwmni.
- Cynnal sganiau gwendidau yn rheolaidd yn unol â'r broses rheoli gwendidau, gan nodi ac atgyweirio dyfeisiau nad ydynt yn cydymffurfio.
- Cymhwyso diweddariadau diogelwch gan ddilyn prosesau a gweithdrefnau diffiniedig.
- Cydweithio ag eraill ar draws y swyddogaeth TG i sicrhau bod prosesau a gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â diogelwch yn parhau i fod yn gyfredol, gan gyfrannu'n uniongyrchol at ein cydymffurfiaeth ag ISO27001.
- Sicrhau bod pob dyfais wedi'i ffurfweddu â meddalwedd wrthfirysau/Endpoint Detection and Response yn unol â pholisïau'r cwmni, gan fod yn rhagweithiol wrth nodi pryd mae angen diweddariadau meddalwedd a gweithio gyda defnyddwyr terfynol i weithredu uwchraddiadau.
- Cynorthwyo gydag archwiliadau diogelwch rheolaidd i sicrhau cydymffurfiaeth â safonau perthnasol (e.e., GDPR, ISO 27001).

- Cynnal dogfennaeth yn ymwneud â ffurfweddau, digwyddiadau, a phrotocolau diogelwch gan sicrhau bod unrhyw gamau gwella/adfer yn cael eu cwblhau i safon uchel
- Cydweithio ag archwilwyr mewnol ac allanol i sicrhau bod arferion gorau diogelwch ar waith, gan ddiweddaru'n rheolaidd yn unol â datblygiadau technolegol.
- Bod yn gyswllt allweddol ar gyfer ymholiadau sy'n ymwneud â seiberddiogelwch, a uwchgyfeiriwyd gan Ddesg Gymorth TG, gan ddarparu cefnogaeth datrys problemau (gywerth â haen 2) manwl i ddefnyddwyr ac uwchgyfeirio lle bo hynny'n briodol.

**<u>Dyletswyddau eraill</u>**

- Cynorthwyo â'r rhaglen foderneiddio TG
- Deall a chydymffurfio â holl bolisïau a gweithdrefnau CBAC a nodir yn y Llawlyfr Staff; yn benodol, sicrhau eich bod yn deall eich rôl a'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â Diogelu, Diogelwch Gwybodaeth, GDPR, Cyfrinachedd, yr iaith Gymraeg ac Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd.
- Cymryd rhan weithredol yn y gwaith o gefnogi egwyddorion ac arfer cydraddoldeb cyfle fel y'i nodir ym Mholisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth CBAC, gan ymgorffori Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ym mhob project, polisi ac arfer.
- Bod yn aelod rhagweithiol o'r tîm, gan gyfrannu'n gadarnhaol at gyfarfodydd a phrojectau i gefnogi nodau ac amcanion CBAC.
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau datblygu personol a phroffesiynol sy'n berthnasol i'r rôl.
- Ymgymryd â dyletswyddau eraill yn ôl y galw sy'n gymesur â gradd y swydd

## Manyleb y Person

| | |
|---|---|
| **Teitl y swydd:** | **Peiriannydd Cefnogi Diweddbwynt** |
| **Adran:** | TG |

Meini prawf hynod ddymunol yw’r sgiliau a’r profiad gorau posibl a fydd gan yr ymgeisydd yn ddelfrydol. Meini prawf dymunol yw’r rhai a fyddai’n ychwanegu gwerth at y swydd os ydynt ar gael, gan gynnwys hefyd potensial am dwf a datblygiad yn y rôl.

## Sgiliau a Galluoedd

**Hynod Ddymunol**

- Sgiliau TG rhagorol (yn arbennig: Windows 10/11, Windows Server, Linux) a'r gallu i ddysgu meddalwedd newydd heb lawer o oruchwyliaeth.
- Sgiliau cyfathrebu da, gyda'r gallu i esbonio deunydd cymhleth i amrywiaeth o gynulleidfaoedd.
- Datrys problemau, gan gynnwys nodi datrysiadau arloesol i faterion cymhleth.
- Unigolyn sy'n gallu ysgogi ei hun i gynllunio a threfnu ei lwyth gwaith ei hun yn annibynnol er mwyn bodloni terfynau amser lluosog sy'n aml yn gwrthdaro.
- Y gallu i gyflawni gwaith yn fanwl gywir ac i dalu sylw i'r manylion.
- Chwaraewr tîm sy’n hyblyg ac yn gallu addasu.

## Gwybodaeth

**Hynod Ddymunol**

- Gwybodaeth weithiol am nifer o'r canlynol:
  - Microsoft Windows a'i reolaeth mewn amgylchedd menter.
  - Monitro isadeiledd
  - Cyfresi diogelwch diweddbwynt (AV, EDR, amgryptio, rheoli rhaglenni).
  - Linux
  - Rhwydweithio a chyfrifiannu Azure a AWS
  - Cysyniadau rhwydweithio gan gynnwys TCP/IP, rhwydweithio diwifr, DNS a VPN mynediad o bell.
  - Cysyniadau seiberddiogelwch gan gynnwys gwe-rwydo, maleiswedd, awthentigeiddio a dulliau ar gyfer lliniaru'r bygythiadau sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr.

**Dymunol**

- Microsoft Defender TVM
- Azure ARC
- Sgriptio PowerShell ac iaith ymholi Kusto.
- Rheoli gwendidau diogelwch gyda Tenable.io a Nessus.

## Profiad

**Hynod Ddymunol**

- Profiad o weithio o fewn un neu fwy o'r meysydd canlynol:
  - Cymryd camau rhagweithiol i ddatrys problemau o fewn amgylchedd TG menter
  - Rheoli meddalwedd diogelwch menter.
  - Amgylchedd cefnogi defnyddwyr.

**Dymunol**

- Gweithio gyda'r gyfres Microsoft Defender.

| **Hyfforddiant / Cymwysterau** | |
|---|---|

**Dymunol**

- Cymwys i gynnig cefnogaeth diweddbwynt, rhwydweithio, seiberddiogelwch neu dechnolegau Microsoft (enghreifftiau: CompTIA A+, Network+, GIAC GSEC, Cisco CCNA neu dystysgrif Microsoft berthnasol).
- Tystiolaeth o dueddfryd at ddysgu hunangyfeiriedig, gan ddefnyddio adnoddau sydd wedi'u darparu.

| Telerau ac Amodau Gwasanaeth | | Terms and Conditions of Service | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y Swydd:**<br>**Job Title:** | **Peiriannydd Cefnogi Rhagweithiol/ Proactive Support Engineer** | | |
| **Cyflog:**<br>**Salary:** | £34,371 - £37,617 y flwyddyn/ per annum | **Gradd:**<br>**Gradd:** | 7 |
| **Gwyliau Blynyddol:**<br><br>**Annual Leave:** | 25 Diwrnod y flwyddyn.  Mae CBAC yn caniatáu 16 o ddyddiau statudol/ychwanegol o wyliau yn ogystal ar hyn o bryd.<br><br>25 Days per annum.  In addition, the WJEC currently allows 16 statutory / additional holidays | | |
| **Pensiwn:**<br><br>**Pension:** | Gweithredir darpariaeth y Ddeddf Bensiwn Llywodraeth Leol<br><br>The provision of the Local Government Superannuation Act apply | | |

**Math o Gytundeb:** | **Contract Type:**

☒ Llawn amser / Full Time

| | |
|---|---|
| ☐ Rhan amser / Part Time | **Nifer yr oriau yr wythnos**<br>**No. of hrs per week** |
| ☐ Llawn amser Tymor Cyfyngedig / Full Time Limited Term | **Diwedd y Tymor**<br>**End of Term** |
| ☐ Rhan-amser Tymor Cyfyngedig / Part Time Limited Term | **Diwedd y Tymor** / /<br>**End of Term**<br>**Nifer yr oriau yr wythnos**<br>**No. of hrs per week** |

**Dull Ymgeisio:** | **Method of Application:**

Dylid anfon ffurflenni wedi'u llenwi ar e-bost at ad@cbac.co.uk erbyn **23:59; dydd Llun 07 Ebrill 2025**.

Completed forms should be sent by email to hr@wjec.co.uk by **23:59; Monday 07 April 2025**.